OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 338 (Cy. 62)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (South Street, Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (South Street, Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 14 Mawrth 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig o'r enw South Street, Rhaeadr Gwy sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ystad Bryn Gwy hyd at ei chyffordd â'r A44 Stryd y Dwyrain, Rhaeadr Gwy, Powys.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru